GWEITHDREFN		
Teitl:	**Rhoi gwybod am achosion cyfreithiol a datgelu canfyddiadau yn erbyn gweithwyr yr Heddlu**	
Maes Arfer / Busnes:	Safonau Proffesiynol	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Safonau Proffesiynol	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	08/12/14	
Adolygwyd Ddiwethaf:	15/01/19	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Ionawr 2020	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif Fersiwn:	01	Prif Gwnstabl

AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:

Rhoi cyfarwyddiadau clir i weithwyr Heddlu De Cymru pan fo'n ofynnol iddynt roi gwybod i Heddlu De Cymru am achosion cyfreithiol yn eu herbyn a datgelu materion ynghylch gweithwyr y mae ganddynt ganfyddiadau troseddol, camymddwyn, barnwrol niweidiol neu gudd-wybodaeth y gellir ei gwirio a fyddai'n dod â'u hygredded fel tyst dan sylw.

CANLLAWIAU:

Mae pob agwedd ar y canllawiau hyn a'r weithdrefn hon yn orfodol, felly cyfeiriwch at y Weithdrefn.

ASESIAD RISG CYFFREDINOL:

Nid oes angen asesiad risg cyffredinol.

GWEITHDREFN:

Mae'n rhaid i'r holl swyddogion a staff sicrhau eu bod wedi darllen Pennod 18 Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996.

Mae'n rhaid i swyddogion a staff roi gwybod am unrhyw gam a gymerir yn eu herbyn ar gyfer trosedd, amodau a osodir arnynt gan lys, neu dderbyn unrhyw hysbysiad cosb.

Mae'r gofyniad hwn yn eithrio achosion priodasol, ond yn cynnwys gorchmynion nad ydynt yn ymwneud ag ymyrryd neu orchmynion meddiannaeth.

Bydd staff swyddogion unigol yn rhoi gwybod am y fath achosion i'r Adran Safonau Proffesiynol drwy Gomander eu Huned Rheoli Sylfaenol/penaethiaid adrannol.

Mae'n ofynnol i swyddogion a staff sy'n rhan o ymchwiliadau troseddol roi gwybodaeth berthnasol i Wasanaeth Erlyn y Goron ar ffurflen MG6B.